Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

19 Mai 2022

Annwyl Gynghorydd,

Mae cefnogi pobl hŷn ar draws Cymru yn rhan allweddol o fy ngwaith fel y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Ym mis Ebrill, cyhoeddais y cynllun cyflenwi Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Fy mhrosiect blaenllaw ar gyfer y strategaeth hon yw'r £1.1miliwn o gyllid ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn ar draws Cymru. Mae £50,000 o gyllid yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol, a'r prif nod yw penodi swyddog pwrpasol i ddatblygu'r gwaith hwn. Mae hwn yn ymrwymiad allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu hyd 2026.

Y nod yn y pen draw yw y bydd pob awdurdod lleol yn ymuno â Rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau a Dinasoedd o Blaid Pobl Hŷn. Caerdydd oedd y ddinas gyntaf i ymuno â'r rhwydwaith hwn yn seiliedig ar eu hymwneud â phobl hŷn a'u gwaith cynllunio gofalus ar gyfer y dyfodol. Rwy'n awyddus i annog awdurdodau eraill i ymuno â'r rhwydwaith.

Mae sicrhau swyddog pwrpasol ym mhob awdurdod lleol yn gam ardderchog ymlaen, fodd bynnag, bydd y swyddogion hyn yn manteisio o gael cymorth **Eiriolwr o Blaid Pobl Hŷn** – cynghorydd etholedig lleol a fydd yn gallu symud y gwaith hwn ymlaen a bod yn llais ar gyfer pobl hŷn yn Siambr y Cyngor. Byddai Eiriolwr o Blaid Pobl Hŷn yn sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu hystyried ym mhob agwedd o waith yr awdurdod lleol, o dai i drafnidiaeth, ac o brosiectau cymunedol i iechyd a gofal cymdeithasol – gan fynd i'r afael â'r holl faterion allweddol sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae pob un ohonom yn mynd yn hŷn. Diben y gwaith hwn yw cynllunio ar gyfer y dyfodol rydyn ni ei eisiau, heddiw.

Wrth ichi setlo i mewn i'ch rolau fel cynghorwyr lleol newydd, rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld hwn yn gyfle i gynnig eich hun i wneud y gwaith hanfodol a chyffrous hwn. Rwyf wedi amgáu ychydig o wybodaeth sy'n esbonio rôl Eiriolwr mewn mwy o fanylder. Cysylltwch â'm swyddogion os oes gennych unrhyw gwestiynau: olderpeopleandcarers@gov.cymru . Os yw'n ddefnyddiol, gallwn eich cysylltu â'r swyddog o Blaid Pobl Hŷn yn eich ardal.

Yn gywir

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.